# Bywyd a Marwolaeth

## YR ENETH HYNOD,

# SARAH JACOB,

## Llether-Neuadd,

*YN AGOS I BENCADER, YN SWYDD GAERFYRDDIN,*

A anwyd y 17eg o Fai, 1857, ond ni phrofodd un math o fwyd o'r 10fed o Hydref, 1867, hyd ddydd ei marwolaeth, sef dwy flynedd a thri mis.

---

GAN HUGH ROBERTS.

---

Cydneswch Gymry hawddgar
I wrando'r ganiad hon,
Wnaed am yr eneth hynod
Sy'n synu'r byd o'r bron,
Fu'n byw yn Llether-Neuadd,
Gerllaw Pencader fry,
A'i henw Sarah Jacob,
Yn sir Gaerfyrddin gu.

Adroddai yr ysgrythyr
 Cyn bod yn ddeuddeg oed,
Llenyddiaeth a barddoniaeth,
 Ni fu ei bath erioed:
Mae hon yn wrthddrych sylw
 Gan bawb o ddynol ryw,
Trwy drefn ddoeth Jehofa
 Y cadwyd hon yn fyw.

Ni phrofodd fwyd na diod,
 Na lluniaeth o un lle,
O'r degfed dydd o Hydref,
 Ond byw trwy ras y ne',
Un fil wyth cant a thrigain,
 Ac hefyd saith yn llawn,
Ond ar ei gwely cystudd
 Foreuddydd a phrydnawn.

Dechreuad ei hafiechyd
 Oedd dyfod adre'n glaf
O'r ysgol un diwrnod
 Tanbeidiol yn yr haf,
Tri mis bu yno'n gorwedd,
 Heb deimlo un llesâd,
Er ymdrech y meddygon
 A'i thyner fam a'i thad.

X205 230570

Hi gysgodd fis yn gyflawn,
 Heb ddeffro ddim un waith,
A'i hyspryd gym'rwyd ymaith
 Trwy'r eangderau maith;
Hi welodd ryfeddodau
 Trwy ryngu bodd ei Duw,
Ond megys breuddwyd ydoedd,
 Ac etto'i chorff yn fyw.

Mynegodd, do, ugeiniau
 O ryfeddodau maith,
A welodd yn y nefoedd,
 Ac hefyd ar ei thaith;
Hi welodd bererinion
 A'u gynau gwynion glân,
Achubodd Duw trwy gariad
 Rhag myn'd i uffern dân.

Ei llais oedd gryf ac eglur,
 A'i gruddiau'n hynod hardd,
Fel lili'n mysg mieri,
 Neu rosyn yn yr ardd;
Ei hoffder ydoedd gweddi,
 Neu ddarllen mewn rhyw fan,
Ond methai droi'r dalenau,
 Ei breichiau oedd ry wan.

Ieuenctyd Cymru anwyl,
 Gwrandewch ar hyn o gân,
Trysorwch hi'n eich meddwl,
 Gwnaiff les yn ddiwahan,
A chofiwch eich Creawdwr
 Cyn delo'r dyddiau blin,
Gan gofio Sarah Jacob,
 Oedd destun i bob dyn.

A chwithau yr henafgwyr
 Sydd oll a'ch gwallt yn wyn,
O cofiwch am yr aberth
 Fu ar Galfaria fryn;
Mae ganddo falm o Gilead
 I wneyd y claf yn iach,
Fel bu â'i ofal tadol
 Yn nghystudd Sarah fach.

Ond Sarah fach o'r diwedd,
 Fel pawb o ddynol ryw,
Adawai'r corff gwanychlyd,
 A'i henaid aeth at Dduw;
Ond bydd y son am dani
 Yn para tra fo'r byd,
A phawb fydd yn rhyfeddu
 I'w bywyd bara cyd.